Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Gweithdy i gwblhau blaenoriaethau ymchwil cefnogaeth emosiynol ac ymddygiad ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal a chefnogaeth

Mae tîm iechyd Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru'n gweithio gydag Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru (brand allanol a braich weithredol Adran Ymchwil a Datblygu Llywodraeth Cymru) wrth i'n gwneud Ymarfer Ymchwil Blaenoriaeth sydd yn edrych ar gefnogaeth ddi-dor i blant a phobl ifanc gyda phroblemau emosiynol ac ymddygiad sy'n derbyn gofal a chefnogaeth. Nod y project yw gweithio gyda phlant, pobl ifanc, ac ymarferwyr iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg i:

- Adnabod cwestiynau allweddol, sialensau, problemau, ac ansicrwydd o ran gweithredu a chael mynediad i gefnogaeth di-dor i blant a phobl ifanc gyda materion emosiynol ac ymddygiad sy'n derbyn gofal a chefnogaeth.
- Blaenoriaethu'r deg cwestiwn mwyaf pwysig er mwyn i ymchwil allu eu taclo.
- Mewnbynnu'r blaenoriaethau i fewn i gynlluniau ariannu

Bydd Llywodraeth Cymru fel rhan o'r ymarfer ymchwil yn casglu gwybodaeth mewn gweithdy ar-lein gyda phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal, eu heiriolwyr, eu rhieni/gofalwyr a'r cydweithwyr; gweithwyr cymdeithasol, gweithwyr gofal iechyd, ac athrawon.

Llywodraeth Cymru yw rheolwr gwybodaeth y prosiect. Byddwn yn dileu unrhyw ddata personol cyn ysgrifennu'r adroddiad ar y gwaith, ac ni fydd unrhyw ddata gydag unrhyw fanylion fyddai'n galluogi adnabod y cyfranogwyr yn cael ei rannu gydag eraill o fewn Llywodraeth Cymru oni bai fod rhywun yn gofyn yn benodol i ni wneud hynny.

Bydd y wybodaeth sy'n cael ei chasglu yn ystod y project yn cael ei chynnwys mewn adroddiad ar wefan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru.

Mae eich cyfranogiad i'r project hwn yn gyfan gwbl wirfoddol. Fodd bynnag bydd eich safbwyntiau a'ch profiadau yn bwysig er mwyn darparu gwybodaeth ar gyfer defnyddio cyllid ymchwil y dyfodol.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# HYSBYSIAD PREIFATRWYDD

## Pa ddata personol ydyn ni'n ei gadw, a ble fedrwn ni ddod o hyd i'r wybodaeth?

Mae 'data personol' yn cael ei ddiffinio gan Reoleiddiad Diogelu Data Cyffredinol y DU (GDPR y DU) fel 'unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â pherson arbennig, y gellir ei (h)adnabod yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol trwy gyfeirio at yr hyn sydd wedi ei bennu neu ei adnabod.

Dymuna Llywodraeth Cymru estyn gwahoddiad i ddetholiad o bobl ifanc sydd â phrofiad o ofal, eu heiriolwyr, eu rhieni/gwarcheidwaid, a'r rheiny sy'n gweithio gyda nhw megis gweithwyr cymdeithasol, gweithwyr gofal iechyd ac athrawon i weithdy. Dyma'r broses:

- Os oes gennych ddiddordeb mewn cymryd rhan, bydd angen i chi gwblhau ffurflen mynegi diddordeb, gan ddarparu eich enw a'ch cyfeiriad e-bost;
- Bydd y tîm ymchwil wedyn yn dewis mynychwyr er mwyn sicrhau bod cymysgedd o unigolion yn cymryd rhan o'r grwpiau gwahanol sydd wedi mynegi diddordeb ar draws gwahanol ardaloedd yng Nghymru. Felly, ni fydd pob ymgeisydd yn cael gwahoddiad i fynychu, a bydd manylion unrhyw un na wahoddwyd yn cael eu dileu o'r ffolder ymchwil cyn gynted ag y bo'r detholiad yn cael ei wneud;
- Os ydych yn mynegi diddordeb, ac yn cael eich dewis, yna byddwch yn derbyn gwahoddiad i'r gweithdy. Os ydych yn cael eich dewis, yna byddwn yn gofyn am eich cyfeiriad post er mwyn i ni allu danfon deunyddiau copi caled atoch, ynghyd â rhif ffôn a bywgraffiad. Does dim rheidrwydd arnoch fodd bynnag i ddarparu bywgraffiad; gallwch hefyd ddefnyddio ffugenw- pwrpas y bywgraffiad fyddai i alluogi cyfranogwyr eraill i ddeall ystod diddordebau cyfranogwyr y gweithdy. Bydd eich llun hefyd yn cael ei gadw fel rhan o recordio'r gweithdy.

Mae eich cyfranogiad ar sail gwirfoddol, felly os and ydych am gymryd rhan, neu ddim am dderbyn nodyn atgoffa yn ystod unrhyw gam o'r broses, yna gallwch ymateb i'r gwahoddiad e-bost yn gofyn i ni ddileu eich manylion; ac fe wnawn ni hynny yn syth.

Byddwch wedi derbyn eich ffurflen mynegi diddordeb mewn un o'r ffyrdd canlynol:

- Trwy e-bost, gan fod Llywodraeth Cymru eisoes yn meddu ar eich manylion cyswllt(enw a chyfeiriad e-bost) fel rhanddeiliaid allweddol yn y maes hwn,

neu am eich bod wedi cymryd rhan mewn cam flaenorol o'r prosiect ac wedi darparu manylion yn mynegi eich bod yn hapus i ni gysylltu â chi yn hwyrach yn y prosiect;

- Danfonwyd linc atoch mewn cyswllt â'r mynegiant o ddiddordeb gan gydweithiwr;
- Trwy blatfform cyfryngau cymdeithasol Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru

Bydd y gweithdy yn cael ei gynnal ar Zoom, a bydd modd i gydweithwyr eraill eich clywed a'ch gweld chi a'r ffugenw y dewisoch ei ddarparu wrth yn ymuno â'r sesiwn Zoom. Bydd y bleidlais y byddwn ni'n gofyn i chi amdani ar ddiwedd y gweithdy yn cael ei chasglu'n ddi-enw trwy wefan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru.

Bydd y gweithdy yn cael ei recordio gan fideo am resymau sefydliadol. Bydd pob data personol yn cael ei ddileu yn ystod y broses o drawsgrifio. Bydd recordiadau yn cael eu dileu cyn gynted a bo'r broses yn cael ei chwblhau. Ni fydd unrhyw ddata personol yn cael ei chynnwys mewn unrhyw nodiadau gan y tîm ymchwil.

### Beth yw sail cyfreithiol defnyddio eich data?

Y sail cyfreithiol i brosesu gwybodaeth yn yr ymarfer casglu data hwn yw ein tasg gyhoeddus; hynny yw ymarfer ein awdurdod swyddogol i ymgymryd â rôl greiddiol a swyddogaethau Llywodraeth Cymru.

Mae eich cyfranogiad yn hollol wirfoddol. Mae prosiect tebyg i'r prosiect hwn yn bwysig i Lywodraeth Cymru gan ei fod yn casglu gwybodaeth sy'n helpu i roi siâp ar flaenoriaethau ymchwil ac ariannu ar draws gwahanol feysydd o ddiddordeb. Bydd y wybodaeth sy'n cael ei chasglu yn ystod y prosiect hwn er enghraifft yn cael ei ddefnyddio i sefydlu blaenoriaethau ymchwil ar gyfer Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, er mwyn iddynt fedru ariannu projectau ymchwil sy'n mynd i'r afael â phrofiadau bywyd go iawn pobl.

### Pa mor ddiogel yw eich data personol?

Mae data personol yn cael ei gadw ar ein gweinydd diogel, ac mae ffolder wedi ei chreu yn arbennig ar gyfer y tîm prosiect yn unig. Ond y tîm hwn sydd â mynediad i'r ffolder. Bydd eich manylion cyswllt ac unrhyw ddata personol yr ydych yn dewis ei ddarparu yn cael ei storio yn y ffolder gyfyngedig hon.

Mae gan Llywodraeth Cymru weithdrefnau i ymdrin ag unrhyw dorri rheolau i ddiogelwch data. Os oes unrhyw amheuaeth bod torri rheolau wedi digwydd, bydd

Llywodraeth Cymru yn eich hysbysu chi, a hefyd yn hysbysu unrhyw rheoleiddiwr perthnasol os oes rheidrwydd cyfreithiol arnom i wneud hynny.

Bydd y tîm prosiect yn defnyddio'r wybodaeth sydd wedi ei chasglu i gynhyrchu adroddiad fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru. Ni fydd yr adroddiad hwn yn cynnwys unrhyw wybodaeth a ellir ei ddefnyddio i adnabod unrhyw un sydd wedi cymryd rhan yn y project.

### Am faint o amser fydd eich data personol yn cael ei gadw?

Bydd unrhyw ddata personol nad yw wedi ei waredu yn cael ei ddileu gan Llywodraeth Cymru o'r ffolder prosiect ymchwil o fewn tri mis wedi cyhoeddi'r adroddiad terfynol; mae hyn yn cynnwys eich manylion cyswllt.

Bydd eich data cyswllt yn yr achos ble yr ydych yn rhanddeiliad allweddol yn y maes yn cael ei gadw a'i ddefnyddio gan Llywodraeth Cymru yn unol â'r pwrpas gwreiddiol.

### Hawliau'r Unigolyn

Yn unol â GDPR y DU, mae gennych yr hawliau canlynol o ran y wybodaeth bersonol yr ydych yn darparu mewn cyswllt â'r project hwn:

- Hawl i gael copi o'ch data chi;
- I ni gywiro unrhyw gamgymeriadau yn y data hwnnw;
- I wrthod neu gyfyngu prosesu (o dan rai amgylchiadau);
- I'ch data gael ei 'ddileu'(o dan rai amgylchiadau);a
- I wneud cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO); ein rheoleiddiwr annibynnol sy'n diogelu data.

Dyma'r manylion cyswllt ar gyfer Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth: Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Cheshire, SK9 5AF. Phone: 0303 123 1113. Gwefan: www.ico.gov.uk

### Gwybodaeth bellach

Os oes gennych gwestiynau pellach ar sut fydd y data a ddarperir fel rhan o'r astudiaeth yn cael ei ddefnyddio gan Llywodraeth Cymru, neu eich bod o bosib am ymarfer eich hawliau gan ddefnyddio Rheolaeth Diogelu Data Cyffredinol y DU, gallwch gysylltu â:

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Enw: Dr Josie Jackson:
Cyfeiriad e-bost: Josie.Jackson001@gov.wales

Ffôn: 03000 025675

Gellir cysylltu â Swyddog Diogelu Data Llywodraeth Cymru trwy gysylltu â:

Llywodraeth Cymru, Parc Cathays,Caerdydd,CF10 3NQ,Ebost: DataProtectionOfficer@gov.wales.